PA19 Unigolyn

| | |
|---|---|
| Senedd Cymru | Welsh Parliament |
| Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee |
| Absenoldeb Disgyblion | **Pupil absence** |
| Ymateb gan Unigolyn | Evidence from Individual |

Nodwch eich barn mewn perthynas â chylch gorchwyl yr ymchwiliad, sydd wedi'u grwpio'n 5 thema

## 1. Rhesymau

Rhesymau dros lefelau absenoldebau cyson:

Mae'r rhesymau dros y lefelau absenoldebau cyson i'w gweld cyn Covid, ond wedi gwaethygu ers y pandemig. Gwelwn we o resymau cymhleth megis:

• Pobl ifanc awtistig yn stryglo yn addysg prif lif a'u gallu'n rhy uchel iddynt fynychu addysg arbennig. Er bod ysgolion yn gwneud eu gorau, mae hen adeiladau, prysurdeb ysgol gyda nifer uchel o ddisgyblion, anawsterau synhwyraidd, anghysondeb cyfathrebiad athrawon, anghenion cyfathrebu penodol yn ei gwneud hi'n anodd i nifer o ddisgyblion. Yn disgyn rhwng dwy stôl, nid oes man addysg addas iddynt ble maent yn gallu llwyddo, ffynnu a disgleirio.

• Pobl ifanc yn dioddef o or-bryder heb fynediad i gefnogaeth briodol gyson yn aml yn ei chael hi'n anodd gadael y tŷ.

• Pobl ifanc gydag anghenion dysgu penodol a dim digon o adnoddau i gyflogi staff cynorthwyol ar raddfa gyflog da a'u hyfforddi i safon uchel er mwyn cynnig cefnogaeth addas a chyson

• Pobl ifanc yn disgwyl asesiadau ASD, asesiadau anghenion dysgu ac asesiadau anghenion iechyd meddwl, yn aml yn disgwyl am fwy nac un asesiad, a'n methu wynebu addysg yn y cyfamser

• Mae'r uchod yn cael ei gymhlethu gan deuluoedd â chenedlaethau sydd wedi methu yn ein sustem addysg ac sy'n ei chael hi'n anodd cefnogi eu plant i fynychu

Credwn fod y lefelau'n uwch oherwydd sefydlu patrymau ac arfer bod adref yn ystod y pandemig a hefyd y rhestrau aros hir oherwydd gofynion uchel ar wasanaethau asesu a chefnogi sy'n gadael plant a phobl ifanc mewn limbo am gyfnodau hir.

Credwn fod y rhesymau uchod yn egluro pam fod grwpiau penodol gyda lefelau presenoldeb isel ac absenoldeb uchel.

## 2. Risgiau a chanlyniadau

Risgiau i ddysgwyr:

• Diffyg cynnydd addysgiadol

• Llai o fynediad at asesiadau a chefnogaeth berthnasol

• Diffyg cyswllt gydag unrhyw asiantaethau ac felly llai o gyfleoedd i adnabod pryderon diogelu

- Problemau iechyd meddwl y bobl ifanc yn dwysau
- Diffyg cynllunio ôl-16
- Llai o gyfleoedd i gymysgu gyda chyfoedion yn arwain at ddiffygion cymdeithasoli.
- Peryg o gael eu dad-gofrestru fel mae'r straen teuluol yn cynyddu
- Os oes dad-gofrestriad, mae peryg na fydd nifer yn derbyn addysg gartref am resymau dealladwy

Canlyniadau tymor byr i ddysgwyr:

- Problemau iechyd meddwl fwy cymhleth
- Diffyg hyder
- Peryg o fod yn ynysig a'n unig
- Diffyg profiadau newydd, byw mewn byd bach iawn
- Dim datblygiad addysgiadol, emosiynol na chorfforol
- Potensial iddynt gael eu camddefnyddio gan eraill yn y gymuned

Canlyniadau tymor hir i ddysgwyr:

- Dim cymwysterau
- Dim mewn addysg, hyfforddiant na gwaith yn 16 oed
- Diffyg gwydnwch a sgiliau byw hir oes
- Problemau iechyd meddwl dwys
- Diffyg opsiynau yn y dyfodol agos, rhaid cychwyn ar gyrsiau lefel 1 cyn-alwedigaethol
- Rhwystredigaeth emosiynol
- Diffyg rhwydwaith cefnogaeth eang
- O bosib mewn cylchoedd gwrth-gymdeithasol
- Gwastraff doniau a photensial

## 3. Effaith

Effaith ar ddysgu a chyrhaeddiad disgyblion:

Rydym yn cefnogi pobl ifanc, rhai ohonynt heb fod i'r ysgol uwchradd ers dwy flynedd a mwy a chyn y pandemig gyda phresenoldeb isel iawn. Nid oes unrhyw gynnydd addysgiadol ac ni fyddent yn cael llwyddiant academaidd yn y dyfodol agos.  Mae opsiynau ôl-16 wedyn yn brin, gyda chyrsiau cyn-galwedigaethol lefel 1 yr unig opsiwn yn aml os oes lle. Mae llefydd yn brin.

O'n profiad ni, mae absenoldebau wedi arwain at lefel uwch o ddadgofrestru disgyblion. Gan amlaf, rydym yn cefnogi teuluoedd dosbarth gwaith ar incwm isel ac nid ydym yn hyderus bod y bobl ifanc sydd wedi eu dadgofrestru yn derbyn unrhyw addysg gartref am resymau dealladwy.

## 4. Effeithiolrwydd polisïau

Effeithiolrwydd polisiau a chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru:

Fel elusen, mae'n anodd i ni asesu effeithiolrwydd polisïau a chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru ar lefel cenedlaethol gan nad ydym digon cyfarwydd â hwy. Rydym yn gallu asesu effaith polisïau ar ymarfer lawr gwlad.

Lefel ac effeithlonrwydd camau gweithredu a chefnogaeth gan ysgol, llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru:

Gwelwn rhai ysgolion yn gwneud eu gorau i weithredu gwasanaeth hyblyg wedi ei deilwra i anghenion y disgybl unigol.

Gwelwn eraill yn lot fwy llym a'n ddigyfaddawd, heb unrhyw fath o empathi at anawsterau'r unigolyn.

Mae hyd yn oed yr ysgolion gorau yn ei chael hi'n anodd cyfarfod anghenion pob plentyn oherwydd diffyg adnoddau.

Un gwendid sy'n gyffredinol i bob ysgol yw bod y gefnogaeth yn cychwyn pan mae'r plentyn yn cyrraedd yr ysgol. Yn aml, rydym yn cefnogi pobl ifanc sy'n methu cyrraedd yr ysgol am wahanol resymau, sy'n parhau ar gofrestr ysgol, ond dim yn derbyn addysg na chefnogaeth o unrhyw fath. Deallwn fod cyllid yn benodol i'w wario ar lesiant yn cael ei rhoi i'r ysgolion yn uniongyrchol ac ni welwn fuddsoddiad tu allan i ffiniau'r ysgol.

Pa mor effeithiol y caiff rhieni gymorth a'u cynnwys:

Er yn aml gwelwn ewyllys ac ymarfer gobeithiol, mae'n anodd i sefydliadau dosbarth canol yng Nghymru gynnwys rhieni dosbarth gwaith yn effeithiol. Mae'r prosesau yn ddieithr, yr iaith yn anodd, diffyg hyder gan rieni dosbarth gwaith wrth geisio cyfathrebu, nid yw'n berthynas gyd-radd ac yn aml nid yw athrawon/swyddogion yn cael eu gweld fel 'pobl fel ni.'

Rhaid cael hyd i ffyrdd gwell o bontio gyda chymunedau a theuluoedd dosbarth gwaith.

Rydym ni fel elusen mewn sefyllfa ffodus i fod yn gallu pontio rhwng teuluoedd ac addysg, annog y ddau i weld ochr y llall a chreu cynllun newydd a ffordd ymlaen gadarnhaol.

## 5. Arall

Rydym yn elusen yn gweithredu cynllun o'r enw Rhwyd Arall – cynllun peilot (2018-2023) sy'n cefnogi pobl ifanc dosbarth gwaith sydd mewn peryg o'u dadgofrestru o addysg uwchradd. Y bwriad yw cadw nhw oddi fewn i gyfrifoldeb Adrannau Addysg Gwynedd a Môn a chreu pecynnau addysg sydd wedi eu teilwra i'w hanghenion.

Daeth y cynllun i fodolaeth wrth i ni gyfarfod pobl ifanc dosbarth gwaith 16-18 mlwydd oed rhwng 2013 a 2018 a oedd wedi eu dadgofrestru ym mlwyddyn 9 a 10 a heb gael addysg gartref. Cymrodd fisoedd a blynyddoedd i'w cefnogi yn ôl i addysg, hyfforddiant neu waith, sicrhau bod yr asesiadau cywir mewn lle a'r gefnogaeth iawn ar gael iddynt, magu hyder a sgiliau cyfathrebu, creu rhwydweithiau cefnogaeth o'r newydd, meithrin gwydnwch.

Dyma pam credwn nad yw'r problemau uchod wedi deillio o'r pandemig, maen nhw yma flynyddoedd, degawdau, ynghynt. Mae'n wir fod y pandemig wedi gwaethygu pethau, creu'r ymarfer a'r opsiwn i aros adra, ond mae'r problemau sydd wrth wraidd sefyllfaoedd unigol yno ers amser maith.

Credwn raid i ni gynnig addysg fwy addas i bobl ifanc awtistig, cynnig gwell cefnogaeth i bobl ifanc efo problemau iechyd meddwl a gwell cefnogaeth i’r rhai gydag anghenion dysgu. Mae’r bobl ifanc rydym yn eu cefnogi yn aml yn disgyn i’r tri grŵp.

Credwn hefyd fod lle i edrych ar sut ydym yn pontio rhwng cymuned, teuluoedd ac addysg. Efallai ymestyn ein diffiniad o addysg, cynnwys opsiynau cymunedol, creu pecynnau sy’n wir siwtio anghenion unigol y person ifanc. Nid yw addysg uwchradd, 1200 o blant o dan un tô, hen, anaddas, swnllyd, gydag athrawon dan eu sang gyda gwaith ac o dan bwysau i gael canlyniadau da, yr opsiwn gorau i bob person ifanc yng Nghymru.